

Monitro Cydraddoldeb

2012/13 i 2014/15

Dadansoddiad o nodweddion staff a myfyrwyr
mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru
ar gyfer blynyddoedd academaidd 2012/13 i 2014/15



Oni nodir fel arall, mae'r holl gymariaethau ar gyfer myfyrwyr neu staff mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2012/13 i 2014/15.

Monitro Oedran

Myfyrwyr

- Yn gyffredinol, roedd gostyngiad o 2.5 y cant yng nghyfanswm y myfyrwyr yn ystod y cyfnod. Gwelwyd gostyngiadau yn yr holl grwpiau oedran, ac eithrio'r cynnydd yn y myfyrwyr 20 oed (cynnydd o 0.7%) a'r rhai rhwng 25 a 29 oed (cynnydd o 0.8%). Gwelodd SAU y DU gynnydd yn nifer y myfyrwyr 20 oed ac iau, ond gostyngiad yn y rhai 21 oed a hŷn; o ganlyniad, roedd y ffigurau cyfanswm yn portreadu gostyngiad o 3.2 y cant yn niferoedd y myfyrwyr. Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn yr ystod oedran 30 oed a hŷn yn SAU Cymru a'r DU, 6.4 y cant yng Nghymru ac 11.9 y cant yn y DU.
- Bu gostyngiad cyson, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yng nghyfran y myfyrwyr gydag oedran anhysbys, yn 0.02 y cant yn 14/15, gan gynrychioli dim ond 23 o fyfyrwyr.

Staff

- Roedd cynnydd canrannol i pedwar allan o'r deg grŵp oedran o staff academiaidd. Y cynnydd mwyaf oedd ymhlith y rhai 65 oed a hŷn ac yna'r grŵp 35 i 39, lle y gwelwyd cynnydd 12 y cant a 7.5 y cant yn y drefn honno. Roedd gostyngiad cyffredinol o 1 y cant, a achoswyd gan y 6 grŵp oedran arall yn dangos gostyngiadau yn niferoedd y staff academiaidd; 24 oed ac iau oedd y mwyaf o'r rhain gyda 12.5 y cant o ostyngiad.
- Ar gyfer y staff i gyd, roedd cynnydd yn niferoedd y staff yn hanner y categorïau oedran, a'r mwyaf o'r rhain oedd 65 oed a hŷn, yn codi 11.4 y cant, a 24 oed ac iau, 6.4 y cant. Roedd gostyngiad yn hanner arall y categorïau oedran, gyda'r gostyngiad mwyaf yng nghanran y rhai 30 i 34 oed (2.8%) a'r rhai 25 i 29 oed (2.5%).
- Ar gyfer y staff ar gontractau annodweddiadol, roedd gostyngiadau mawr ar gyfer yr holl grwpiau oedran ymhlith y staff academiaidd a'r holl staff; gyda gostyngiad cyffredinol o 31.5 y cant ar gyfer yr holl staff a 2.2 y cant ar gyfer y staff academiaidd.
- Ar gyfer y staff ar gontractau heb fod yn annodweddiadol, roedd cynnydd ym mwyafrif y grwpiau oedran ar gyfer y staff academiaidd a'r holl staff, gyda'r unig ostyngiadau i'w gweld ar ffurf 0.1 y cant ar gyfer y staff academiaidd yn yr ystodau oedran 30 i 34 a 40 i 44. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn canrannau yn nifer y staff academiaidd 65 oed a hŷn, a'r holl staff 65 oed a hŷn, gyda 28.5 y cant a 21.8 y cant yn y drefn honno.

Monitro Anabledd

Caiff myfyrwyr sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2010 eu categoreiddio'n wahanol i'r rhai sy'n dechrau cyn 1 Awst 2010, felly dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau ar draws y cyfnod. Mae mwy o wybodaeth am hyn i'w gweld yn adran y nodiadau technegol.

Myfyrwyr

- Yn 2014/15, roedd 15,571 o fyfyrwyr anabl yn astudio yn SAU Cymru (11 y cant o'r holl fyfyrwyr). Mae gan bron i hanner o'r rhai sydd ag anabledd anabledd dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu anhwylder diffyg canolbwytio (gorfywiogrwydd).
- Bu cynnydd gan 52% yn nifer y myfyrwyr a wnaeth ddatgan bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl fel iselder, sgitsoffrenia neu anhwylder gorbryder, a bu cynnydd gan 50% yn nifer y myfyrwyr a wnaeth ddatgan bod ganddynt nam cymdeithasol/cyfathrebu fel syndrom Asperger neu anhwylder arall ar y sbectrwm awtistig.
- Cynyddodd nifer y myfyrwyr sy'n derbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl gan 10 y cant, cynyddodd nifer y myfyrwyr anabl hefyd gan 11 y cant, roedd gostyngiad o 2.5 y cant yng nghyfanswm y myfyrwyr, gan ddynodi bod y nifer sy'n ymgymryd â DSA yn cyfateb yn fras i nifer y myfyrwyr sy'n eu datgelu eu hunain fel myfyrwyr anabl. Fodd bynnag, rhaid nodi bod y newidiadau i'r dull o gofnodi anabledd ers 2010/11 yn cael effaith ar nifer y myfyrwyr sy'n datgan eu bod yn anabl, wrth i'r categorïau anabledd gwmpasu mwy o gyflyrau nac yn y gorffennol, ac wrth i'r cyfle i wrthod darparu gwybodaeth gael ei ddileu i fyfyrwyr sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2010 – gweler y nodiadau technegol am fwy o wybodaeth.
- Gostyngodd nifer y myfyrwyr yr oedd gwybodaeth am eu hanabledd wedi'i gwrthod/ddim yn hysbys/heb ei gofyn gan 100 y cant (o 12 i 0). Mae hyn oherwydd bod y cyfle i wrthod darparu gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2010 wedi'i ddileu, fel y nodwyd uchod.
- Mae cyfran y myfyrwyr anabl sy'n hawlio Lwfans i Fyfyrwyr Anabl mewn SAU yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch na'r gyfran yn SAU y DU yn gyffredinol.

Staff

- Cynyddodd nifer y staff academaidd a wnaeth ddatgan anabledd gan 9 y cant o 547 i 596.
- Gwelwyd cynnydd tebyg i'r uchod yn nifer yr holl staff sydd wedi'u datgan fel staff anabl (8.3%).
- Cododd nifer y staff **academaidd** ar gontractau nad ydynt yn annodweddiadol a wnaeth ddatgan anabledd 7.6 y cant o 462 i 497, tra bod nifer yr **holl** staff ar gontractau nad ydynt yn annodweddiadol a wnaeth ddatgan anabledd wedi codi 6.9 y cant o 1,166 i 1,247.

- Cynyddodd nifer y staff **academaidd** ar gontractau annodweddiadol a gafodd eu datgan fel anabl 16.5 y cant, o 85 i 99, ond bu gostyngiad o 43.6 y cant, o 2,234 i 1,261, yn y rhai heb unrhyw anabledd hysbys.
- Yr anabledd mwyaf cyffredin i staff (academaidd a'r holl staff) yw salwch neu gyflwr iechyd hirdymor.
- Cynyddodd nifer y staff y gwrthodwyd eu gwybodaeth am anabledd 17 y cant, o 808 i 945, ar gyfer y staff academaidd ond bu gostyngiad o 2.8 y cant, o 1,680 i 1,633, ar gyfer yr holl staff. Mae'n bur debyg mai'r hyn sy'n gyfrifol am y newidiadau hyn yw cyfuniad o newid mewn cyfarwyddyd a gyflwynwyd o 2012/13 ymlaen yng nghofnod staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, i godio staff pan mae'n anhysbys a oes ganddynt anabledd fel 'dim anabledd hysbys' (gweler yr adran nodiadau technegol) a staff yn cael eu harolygu am yr eildro o ganlyniad.
- Cynyddodd nifer y staff y gwrthodwyd eu gwybodaeth am anabledd 30 y cant ar gyfer y staff academaidd ar gontractau heb fod yn annodweddiadol a 7 y cant ar gyfer yr holl staff ar gontractau **heb fod yn annodweddiadol**. Y rheswm am hyn yn bennaf oedd bod gan un sefydliad ostyngiad mawr yn nifer y staff academaidd ar gontractau heb fod yn annodweddiadol heb unrhyw anabledd hysbys, a chynnydd mawr yn nifer y staff yn y grŵp hwn y gwrthodwyd eu gwybodaeth am anabledd. Y rheswm mwyaf tebygol dros hyn yw oherwydd cyfuniad o'r newid yn y cyfarwyddyd ar gofnodi staff os yw'r wybodaeth am anabledd yn anhysbys (gweler yr adran nodiadau technegol) a'r staff yn cael eu harolygu am yr eildro er mwyn casglu'r wybodaeth hon.
- Ar gyfer contractau **annodweddiadol**, roedd nifer y staff a wrthododd ddarparu gwybodaeth ynghylch anabledd wedi gostwng 60 y cant ar gyfer staff academaidd a 68 y cant ar gyfer yr holl staff. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad arbennig o fawr yn nifer y staff ar gontractau annodweddiadol.

Monitro Ethnigrwydd

Myfyrwyr

- Roedd cynnydd yn nifer y myfyrwyr ym mhob grŵp lleiafrifoedd ethnig ar wahân i grwpiau Tsieineaidd (- 9%) a Du Eraill (- 5.3%). Y grwpiau lle y bu'r cynnydd cyfrannol mwyaf yn nifer y myfyrwyr oedd Eraill (21.5%), Du Affricanaidd (11.2%), Bangladeshaid (10.7%), a Du Caribiaidd (10.63%).
- Roedd nifer y myfyrwyr lle nad oedd gwybodaeth am ethnigrwydd yn hysbys, neu lle'r oedd wedi'i gwrthod, wedi cynyddu 12.4 y cant o 2,272 i 2,891.
- Yn 2014/15, roedd cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o bob cefndir lleiafrif ethnig (ar wahân i Tsieineaidd) yn SAU Cymru yn uwch na'r cyfrannau hyn ym mhoblogaeth cyfrifiad Cymru. Roedd cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU o bob cefndir lleiafrif ethnig (ar wahân i Cymysg) yn SAU y DU yn llai na'r cyfrannau hyn ym mhoblogaeth cyfrifiad y DU.

- Yn 2014/15, mae cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU o gefndiroedd lleiafrif ethnig gyda'i gilydd yn uwch na phoblogaeth bwysedig cyfrifiad y myfyrwyr yn y DU, tra bod cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o gefndiroedd lleiafrif ethnig gyda'i gilydd yn is na phoblogaeth bwysedig cyfrifiad y myfyrwyr yn y DU.

Staff

- Roedd cyfran yr holl staff o bob cefndir lleiafrif ethnig yn is na'r cyfrannau hyn ym mhoblogaethau Cymru a'r DU ac eithrio staff Indiaidd, Tsieineaidd a staff o gefndiroedd lleiafrif ethnig eraill a oedd yn fwy na'r boblogaeth ym mhoblogaeth cyfrifiad Cymru.
- Roedd cyfran y staff academaidd o bob cefndir lleiafrif ethnig yn is na'r cyfrannau hyn ym mhoblogaeth cyfrifiad y DU ac eithrio staff academaidd Tsieineaidd a staff o gefndiroedd lleiafrif ethnig arall.

Monitro Rhyw

- Yn ystod y cyfnod, ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i batrwm rhyw y rhan fwyaf o ymgeiswyr, myfyrwyr, staff academaidd, a'r holl staff.

Myfyrwyr

- Roedd y gyfran o ymgeiswyr benywaidd yn SAU y DU a myfyrwyr benywaidd yn SAU Cymru a'r DU yn fwy na'r gyfran o ferched ym mhoblogaeth y cyfrifiad sy'n 16 oed a hŷn.

Staff

- Er bod y gyfran o staff academaidd benywaidd yn SAU Cymru yn is na chyfran y benywod ym mhoblogaeth y cyfrifiad oedd yn 16 oed ac yn hŷn ac yn weithredol yn economaidd, mae'r gyfran wedi cynyddu yn ystod y cyfnod ac erbyn hyn dim ond 0.1 pwynt canran yn is na chyfran cyfrifiad y DU ydyw.
- Roedd y gyfran o staff benywaidd yn SAU Cymru yn fwy na'r gyfran o fenywod ym mhoblogaeth y cyfrifiad sy'n 16 oed a hŷn ac yn weithgar yn economaidd.
- Mae 53 y cant o'r staff academaidd yn wrywaidd, ond dim ond 46 y cant o gyfanswm yr holl staff sy'n wrywaidd.
- Roedd y gyfran o staff academaidd gwrywaidd a'r holl staff gwrywaidd yn SAU Cymru a oedd ar gontractau annodweddiadol yn is na'r gyfran o wrywiaid ym mhoblogaeth y cyfrifiad.
- Roedd llai o staff academaidd benywaidd ar gontractau heb fod yn annodweddiadol na staff gwrywaidd, ond eto roedd mwy o staff benywaidd yn gyffredinol ar gontractau heb fod yn annodweddiadol na staff gwrywaidd.
- Mae cyfran y staff benywaidd wedi codi bob blwyddyn ar gyfer yr holl grwpiau o staff a ystyriwyd yn y dadansoddiad hwn.

Nodiadau Technegol

Poblogaeth

Ym mhob achos mae'r data wedi'i leihau i gyfrif pennau, hynny yw, bydd aelod o staff sydd â mwy nag un contract ond yn cael ei gyfrif unwaith, a bydd myfyriwr sydd â mwy nag un cofrestrriad ond yn cael ei gyfrif unwaith.

Mae data'r boblogaeth wedi cael ei gynnwys o gyfrifiad 2011

Staff

Er mwyn dadansoddi ethnigrwydd staff, y boblogaeth a ddefnyddir yw staff y DU yn unig. Ar gyfer yr holl ddadansoddiadau eraill, caiff yr holl staff eu defnyddio.

Myfyrwyr

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys myfyrwyr unigol, a nodwyd ar gofnod myfyrwyr yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA), sydd wedi'u cyfrif ym mhoblogaeth y sesiwn, hynny yw, myfyrwyr sy'n weithredol o fewn y flwyddyn academaidd, ac eithrio myfyrwyr segur, myfyrwyr sy'n dod i mewn a myfyrwyr cyfnewid, myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i'r DU ar gyfer y rhaglen astudio gyfan, myfyrwyr sy'n cwblhau gwaith ymchwil a myfyrwyr sabothol.

Ar gyfer dadansoddi'r myfyrwyr yn ôl oedran a rhyw, mae'r boblogaeth yn cynnwys yr holl fyfyrwyr.

Ar gyfer dadansoddi anabledd myfyrwyr, yn ogystal, dim ond y myfyrwyr hynny a gofnodwyd ar y cofnod llawn o fyfyrwyr sydd wedi cael eu cynnwys. Ar gyfer dadansoddi ethnigrwydd myfyrwyr, myfyrwyr sy'n dod o'r DU yn unig, dim ond y cofnod llawn o fyfyrwyr a gynhwyswyd. Caiff y cofnod llawn o fyfyrwyr ei ddefnyddio am nad yw anabledd ac ethnigrwydd wedi'u cynnwys ar y cofnod llai o fyfyrwyr, a ddefnyddir ar gyfer mathau penodol o fyfyrwyr lle mae is-set o'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y cofnod llawn o fyfyrwyr yn cael ei gadw. Mae myfyrwyr sy'n dod o'r DU wedi cael eu dewis ar gyfer dadansoddi ethnigrwydd myfyrwyr am nad yw'n orfodol cofnodi ethnigrwydd i fyfyrwyr nad ydynt yn dod o'r DU.

Ffrâm codio anabledd

Yn 2010/11, gwnaeth HESA newidiadau i'r maes anabledd yng nghofnod myfyrwyr HESA ar gyfer myfyrwyr a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2010. Mae'r rhain yn unol â'r ffrâm codio a gyflwynwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd.

Yn ogystal â'r newidiadau i'r math o anabledd a gynhwyswyd yn y ffrâm, nid yw bellach yn bosibl i fyfyrwyr sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2010 wrthod datgelu gwybodaeth am anabledd. Hynny yw, mae'r meysydd canlynol ond ar gael i fyfyrwyr a ddechreuodd cyn 1 Awst 2010:

- 97 - Gwybodaeth wedi'i gwrthod
- 98 - Gwybodaeth heb ei chasglu
- 99 - Ddim yn hysbys

Caiff myfyrwyr a ddechreuodd cyn 1 Awst 2010 eu codio i ffrâm wahanol ar gyfer myfyrwyr a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2010. Caiff y ddwy ffrâm codio eu cyfuno fel a ganlyn:

Myfyrwyr sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2010	Myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau
51 - Anabledd dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu anhwylder diffyg canolbwytio	11 - Anhawster dysgu penodol e.e. dyslecsia
53 - Nam cymdeithasol/cyfathrebu fel syndrom Asperger/ anhwylder arall yn y spectrwm awtistig	10 - Anhwylder yn y Spectrwm Awtistig
54 - Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor fel canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y gallon neu epilepsi	07 - Anabledd na ellir ei weld, e.e. diabetes, epilepsi, asthma
55 - Cyflwr iechyd meddwl fel iselder, sgitsoffrenia neu anhwylder gorbryder	06 - Anawsterau iechyd meddwl
56 - Nam corfforol neu broblemau symudedd, fel anhawster i ddefnyddio'r breichiau, neu'n defnyddio cadair olwyn neu faglau	04 - Defnyddio cadair olwyn/ anawsterau symudedd
57 - Byddar neu nam difrifol ar y clyw	03 - Byddar / nam ar y clyw
58 - Dall neu nam difrifol ar y golwg heb ei gywiro gyda sbectol	02 - Dall/ rhannol ddall

Yn ogystal, mae myfyrwyr a ddechreuodd cyn 1 Awst 2010 sydd wedi'u codio fel 05 - Cymorth gofal personol, wedi cael eu cynnwys yng nghategori 96 - Anabledd, nam neu gyflwr meddygol nad yw wedi'i restru uchod.

I gael gwybodaeth bellach, cyfeiriwch at y maes DISABLE yn llawlyfr codio cofnod myfyrwyr HESA 2014/15:

https://www.hesa.ac.uk/index.php?option=com_studrec&task=show_file&mnl=15051&href=a^ ^DISABLE.html

Anhysbys - Diffiniadau HESA

Staff

- Ethnigrwydd yn anhysbys – defnyddir ar gyfer staff lle nad yw'r ethnigrwydd yn hysbys, gellir ei ddefnyddio i staff nad ydynt yn gwybod eu hethnigrwydd, e.e. staff sydd wedi cael eu mabwysiadu.
- Ethingrwydd wedi'i wrthod - defnyddir ar gyfer staff a wnaeth wrthod ddarparu'r wybodaeth
- Gwrthod anabledd – o 2012/13 ymlaen, os nad yw'n hysbys a oes gan aelod o staff anabledd, fe'i cofnodir fel 'dim anabledd hysbys' a dim ond gwrthod anabledd a gesglir.
- Oedran yn anhysbys - pob achos lle mae'r dyddiad geni ar goll, neu pan fydd y dyddiad geni yn golygu mai'r oedran a gyfrifir yw 0.
- Rhyw anhysbys - Mae newid o ran defnyddio'r maes 'rhyw cyfreithiol' yn golygu nad yw rhyw anhysbys bellach yn opsiwn o 2012/13. Fodd bynnag, roedd nifer bach o gofnodion yn 2012/13 heb eu codio. O 2013/14 ymlaen, dim ond fel gwryw neu fenyw y gellir codio rhyw cyfreithiol.

Myfyrwyr

- Ethnigrwydd wedi'i wrthod - ddefnyddio pan mae myfyriwr wedi gwrthod yn glir i ddarparu'r wybodaeth.
- Ethnigrwydd yn anhysbys - defnyddio'r maes hwn pan nad yw myfyriwr wir yn gwybod ei ethnigrwydd, er enghraifft unigolion a fabwysiadwyd.
- Anabledd wedi'i wrthod - defnyddir ar gyfer yr holl achosion lle mae myfyriwr wedi gwrthod darparu'r wybodaeth am anabledd ar gyfer y myfyrwyr hynny a ddechreuodd cyn 1 Awst 2010.
- Anabledd heb ei ganfod - defnyddir ar gyfer myfyrwyr s'n parhau â'u hastudiaethau mewn achosion lle nad yw'r sefydliad yn meddu ar y wybodaeth eisoes ar gyfer y myfyrwyr hynny a ddechreuodd cyn 1 Awst 2010.
- Anabledd yn anhysbys - yn cynnwys yr holl achosion lle y gofynnwyd am wybodaeth ond na chafodd ei darparu ar gyfer y myfyrwyr hynny a ddechreuodd cyn 1 Awst 2010.
- Lwfans Myfyriwr Anabl ddim yn hysbys/heb ei ganfod - yn cynnwys achosion lle mae gan y myfyriwr anabledd ond nad yw'n hysbys a yw'n derbyn Lwfans Myfyriwr Anabl ai peidio

- Oedran yn anhysbys - pob achos lle mae'r dyddiad geni ar goll, neu pan fydd y dyddiad geni yn golygu mai'r oedran a gyfrifir yw 0.

Anabledd

Ers 1996, ni fu unrhyw gofrestrriad mewn perthynas ag anabledd. Caiff anabledd ei gofnodi ar sail hunanasesiad yr aelod o staff neu'r myfyriwr.

Mae'r myfyrrwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrrwyr Anabl yn dod o'r DU yn unig.

Oedran

Oedran yw oedran y myfyriwr neu'r aelod o staff ar 31^{ain} Awst o fewn y flwyddyn academaidd.

Yn byw yn y DU

Yn cynnwys myfyrrwyr sy'n byw yn yr Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Cymru, Ynysydd y Sianel ac Ynys Manaw.

Niferoedd bach

Pan fydd y niferoedd absoliwt mewn categori yn isel, gall newidiadau bach mewn niferoedd mewn categorïau o'r fath arwain at wahaniaethau canran mawr. Mae hyn yn broblem wrth fonitro ethnigrwydd ac anabledd staff mewn rhai achosion.

Gwahaniaethau o gymharu â ffynonellau data eraill

Cyhoeddiadau HESA

Bydd y data am staff a ddarparwyd yn y dadansoddiad hwn yn wahanol i'r data a gyhoeddwyd gan HESA, sy'n eithrio staff ar gcontractau annodweddiadol, sydd ond yn cyfrif y contractau hynny sy'n weithredol ar 1 Rhagfyr, ac sy'n cyfrif cofnodion cyfwerth â pherson llawn.

Bydd y data am fyfyrwyr a ddarparwyd yn y dadansoddiad hwn yn wahanol i'r data a gyhoeddwyd gan HESA, sy'n cyfrif myfyrrwyr yn y boblogaeth gofrestru safonol, nid cyfrif pennau. Mae'r boblogaeth gofrestru yn debyg i'r boblogaeth sesiwn, ond mae'n cyfrif cofrestrïadau unwaith am bob blwyddyn o raglen astudio, yn hytrach nag ar gyfer bob blwyddyn academaidd yr oeddent yn weithredol.

Diffinio annodweddiadol

Nodwyd y diffiniad o 'annodweddiadol' yn Yr Adran Masnach a Diwydiant:

'Defnyddir y term 'annodweddiadol' i ddisgrifio trefniadau gweithio nad ydynt yn barhaol, sy'n cynnwys cydberthnasau cymhleth a/neu sy'n cynnwys gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol. Gall gradd o hyblygrwydd ar gyfer y darparwr gwaith a'r gweithiwr fod yn nodweddion o hyn, a gallant gynnwys cydberthynas drionglog sy'n cynnwys asiant.'

Ffynhonnell: Dogfen Drafodaeth yr Adran Fasnach a Diwydiant ar Statws Cyflogaeth, Gorffennaf 2003, paragraff 23.

Yn ogystal â'r diffiniad hwn gan yr Adran Masnach a Diwydiant, lluniwyd canllaw penodol gan AU. Mae contractau annodweddiadol yn bodloni un neu fwy o'r amodau canlynol:

- Maent yn para llai na phedair wythnos yn olynol - sy'n golygu nad oes angen datganiad o delerau ac amodau.
- Maent ar gyfer tasgau un tro/tymor byr - er enghraifft, ateb y ffôn yn ystod y cyfnod clirio, cynnal arddangosfa, trefnu cynhadledd. Nid oes rhwymedigaeth gilyddol rhwng y darparwr a'r gweithiwr y tu hwnt i gyfnod y gwaith neu'r prosiect. Mewn rhai achosion telir ffi sefydlog ar gyfer y darn o waith nad yw'n gysylltiedig â'r oriau / amser a dreuliwyd.
- Maent yn cynnwys gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol - han o gynlluniau cwmnïau addysgu na goruchwyliaeth addysgu ac ymchwil sy'n gysylltiedig â darparu addysg dysgu o bell.
- Maent yn cynnwys cryn dipyn o hyblygrwydd, mewn contract yn aml, i weithio ar sail 'fel bo'r angen' - er enghraifft, arlwyo ar gyfer ynnadleddau, cenhadon myfyrwyr, arddangoswyr.